# CRYNODEB POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN

Mae Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor yn esbonio:

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

## Y MATHAU O WEITHGARWCH Y DYLID RHOI GWYBOD AMDANYNT

Dylech godi llais pan fydd gennych bryder gwirioneddol am gamymarfer, megis:

- Ymddygiad sy'n drosedd neu sy'n torri'r gyfraith
- Torri ein Cod Ymddygiad ar gyfer staff neu Gynghorwyr
- Cam-drin tuag at gleientiaid, cyflogeion, contractwyr neu'r cyhoedd
- Amheuaeth o dwyll neu lygredd
- Difrod i'r amgylchedd
- Methiant i ddilyn polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor

**DARLLENWCH Y RHESTR LAWN AR DUDALEN 7 O'R POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN >>**

## SUT I GODI PRYDER

Dylai'r rhai sydd â phryderon eu hadrodd yn gyfrinachol gan ddefnyddio:

- Ffurflen ar-lein Codi Llais
- Cyfeiriad e-bost Codi Llais: speakout@valeofglamorgan.gov.uk
- Llinell ffôn Codi Llais - 01446 731115

Fel arall, gallwch roi gwybod am eich pryderon yn uniongyrchol i'ch Rheolwr Llinell, neu:

- Pennaeth Adnoddau Dynol (Tracy Dickinson)
- Swyddog Monitro (Debbie Marles)
- Prif Weithredwr (Rob Thomas)
- Pennaeth Cyllid (Matt Bowmer)
- Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (Andrew Wathan)

Gellir rhoi gwybod am bryderon yn gyfrinachol os yw'n well gennych.

**MAE TUDALENNAU 7/8 O'R POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN YN MANYLU AR SUT I ADRODD PRYDERON >>**

## DIOGELU DATA A CHYFRINACHEDD

Mae codi llais neu 'chwythu'r chwiban' yn cael effaith gadarnhaol ar y sefydliad, gan ddiogelu cyllid ac enw da'r Cyngor tra'n cadw cydweithwyr a chwsmeriaid yn ddiogel.

**Nid yw'r Cyngor yn goddef** unrhyw aflonyddu neu erlid a bydd yn cymryd camau i amddiffyn y rhai sy'n codi pryderon.

Mae cyfraith y DU yn amddiffyn gweithwyr rhag diswyddiad, aflonyddu neu erledigaeth os bydd triniaeth o'r fath yn digwydd o ganlyniad i ddatgeliad chwythu'r chwiban yr ystyrir ei fod er budd y cyhoedd.

**DARLLENWCH FWY AM YR AMDDIFFYNIAD SYDD AR GAEL I CHWYTHWYR CHWIBAN AR DUDALEN 5 O'R POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN Y CYNGOR>>**

## Y CAMAU NESAF

Bydd ymateb y Cyngor yn dibynnu ar natur y pryder a godwyd.

Bydd y Rheolwr Gweithredol Cysylltiadau Cwsmeriaid yn cofnodi'r honiad ar gofrestr ganolog.

O fewn y 10 diwrnod gwaith nesaf bydd y chwythwr chwiban yn cael esboniad ar sut mae'r Cyngor yn bwriadu delio â'r mater.

**GALLWCH DDOD O HYD I YMATEBION ENGHREIFFTIOL A CHAMAU GWEITHREDU AR DUDALEN 10 POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN Y CYNGOR>>**